

<i>At:</i>	Bronwen Morgan, Cadeirydd Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Ceredigion
<i>Copiwrch at</i>	Gweler y rhestr ar y diwedd
<i>Oddi wrth:</i>	Helen Mercer, Prif Arolygydd Cynorthwyol (Cyfiawnder Ieuenctid)
<i>Dyddiad Cyhoeddi:</i>	Awst 26, 2015

Adroddiad Sgrinio Ansawdd Byr (SQS) o waith troseddwy'r ifanc yng Ngheredigion

Cynhaliwyd yr arolygiad o 13-15 Gorffennaf 2015 fel rhan o'n rhaglen o arolygu gwaith gyda throseddwy'r ifanc. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan Arolygiaeth Prawf EM. Bydd copi yn cael ei ddarparu i arolygiaethau partner i lywio eu harolygiadau nhw, ac i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI).

Cyd-destun

Nod y system cyfiawnder ieuenctid yw atal troseddu gan blant a phobl ifanc. Mae asesiad o ansawdd da a chynllunio ar ddechrau dedfryd yn hanfodol i gynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau cadarnhaol. Archwiliwyd 12 achos o blant a phobl ifanc a ddechreuodd gael goruchwyliaeth rhwng 7 Ionawr, 2014 a 15 Mai, 2015 a chawsant eu goruchwyllo gan Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Ceredigion (GCI). Lle bynnag y bo'n bosibl, cafodd hyn ei wneud ar y cyd â'r rheolwr achos a ddyrannwyd, a oedd felly yn cynnig cyfle dysgu i'r staff.

Crynodeb

Y gyfradd aildroseddu¹ a gyhoeddwyd ar gyfer Ceredigion oedd 33.0%. Roedd hyn yn well na'r flwyddyn flaenorol o 33.1% ac yn well na chyfartaledd Cymru a Lloegr o 36.6%.

Yn gyffredinol, canfuom fod perfformiad Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Ceredigion yn dangos gwelliant yn y canfyddiadau o'n harolygiad blaenorol yn 2010. Roedd y staff yn cael eu cefnogi'n dda yn eu gwaith. Roeddent yn ymwneud yn gadarnhaol â phlant a phobl ifanc, eu rhieni /gofalwyr a sefydliadau partner. Roeddent yn defnyddio'r cyd-drafod hwn i ddod i ddealltwriaeth dda o'r materion y rhoddid blaenoriaeth iddynt mewn achosion. Canfuwyd bod llawer o blant a phobl ifanc yn cyfranogi'n dda yn y broses oruchwyllo ac wedi gwneud cynnydd yn erbyn ffactorau oedd yn gysylltiedig â'u troseddu. Gallai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wella ansawdd yr ymarfer ymhellach drwy sicrhau bod adolygiadau o waith yn cael ei wneud ym mhob achos, a thrwy ymdrin â materion yn ymwneud yn benodol â bod yn agored i niwed lle bo hynny'n berthnasol.

Sylwadau ar yr arolygiad yng Ngheredigion

1. Lleihau aildroseddu

- 1.1. Defnyddiwyd y broses sicrhau ansawdd leol i sicrhau bod adroddiadau o ansawdd digon da. Roedd y rhan fwyaf o'r achosion a adolygwyd gennym yn cynnwys gorchmynion cyfeirio a

¹ Cyhoeddwyd Ebrill 2015 yn seiliedig ar gyfraddau aildroseddu deuaidd ar ôl 12 mis ar gyfer carfan Gorffennaf 2012 - Mehefin 2013. Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

gwelsom fod adroddiadau o ansawdd da wedi cael eu darparu i baneli gorchmynion cyfeirio ym mhob achos. Roedd adroddiad cyn dedfrydu (PSR) wedi ei gynhyrchu mewn dau achos ac roedd y ddau o'r rhain o ansawdd da.

- 1.2. Mae asesiadau a chynlluniau yn ffurfio sylfaen i gyflenwi gwasanaethau. Ym mhob un o'r 12 achos a adolygwyd, roedd yr asesiad o'r hyn a oedd yn debygol o wneud i blentyn neu berson ifanc droseddu, a nodi beth a allai helpu i leihau troseddu yn y dyfodol, o ansawdd da. Roedd yr asesiadau yn bwydo i mewn i'r cynlluniau gwaith ac roedd pob un ond un o'r rhain hefyd wedi cael eu gwneud i safon dda. Roedd y cyfuniad o asesiadau a chynlluniau o ansawdd da yn golygu bod cwmpas a ffocws y gwaith yn hyrwyddo'r potensial o gyflawni canlyniadau cadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc. Nodwyd gennym fod asesu a chynllunio yn agwedd ar arfer yr oedd y rheolwyr achos yn gyffredinol yn ei wneud yn dda.
- 1.3. Mae amgylchiadau teuluol a phersonol plant a phobl ifanc yn gallu newid yn gyflym ac yn gallu dangos yr angen am newid cyfeiriad wrth oruchwylio. O ganlyniad, mae angen adolygu asesiadau a chynlluniau i fynd i'r afael â materion troseddu er mwyn iddynt gadw i fyny â datblygiadau. Roedd pob un o'r deg asesiad a adolygwyd wedi cael eu gwneud yn ddigon da ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adolygiadau o'r cynlluniau cysylltiedig.
- 1.4. Mae'r enghraifft o achos ganlynol yn cynorthwyo i egluro gwaith y GCI (YJS) wrth helpu i leihau aildroseddu: *"Derbyniodd Lewis² orchymyn cyfeirio pedwar mis am ymosod ar berson ifanc. Roedd tensiynau parhaus rhwng y ddau berson ifanc ac roedd Lewis wedi cael rhybudd terfynol blaenorol am ymosod ar yr un dioddefwr. Safiad Lewis a'i deulu i ddechrau oedd na ddylai'r mater fod wedi mynd i'r llys ac y dylai'r ddau berson ifanc ddatrys pethau eu hunain ar y stryd. Erbyn diwedd y gorchymyn cyfeirio gallai Lewis nodi sut y gallai alcohol, ynghyd â'i agweddau a'i ffordd o wneud penderfyniadau, efallai arwain at droseddau pellach. Dangosodd Lewis ddealltwriaeth o deimladau'r dioddefwr ac ysgrifennodd lythyr o ymddiheuriad. Roedd y bobl ifanc yn byw mewn cymuned fach lle y byddent yn dod i gysylltiad â'i gilydd yn rheolaidd. Dangosodd Lewis ei fod yn gallu osgoi gwrthdaro parhaus â'r dioddefwr. Cafodd Lewis gefnogaeth hefyd i ddefnyddio gwasanaethau i helpu gyda chyflogaeth. Daeth o hyd i swydd ac ni fu unrhyw droseddu pellach am bron i flwyddyn ar ôl i'r gorchymyn ddod i ben. "*

2. Diogelu'r cyhoedd

- 2.1. Gwelwyd asesiad o ansawdd da o risg o niwed i eraill ym mhob un o'r achosion a adolygwyd gennym. Lle gallai plentyn neu berson ifanc beri risg o niwed i eraill, rydym yn disgwyl gweld cynllun i leihau'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd. Mewn chwech allan o saith o achosion o'r fath, gan gynnwys achos lle cadwyd rhywun dan glo, roedd hyn yn amlwg. Nodwyd gennym fod gan bob un o'r pedwar achos perthnasol gynlluniau penodol i roi sylw i'r risg i ddiodesfwyr adnabyddadwy.
- 2.2. Mae adolygiadau o gynlluniau rheoli risg yn bwysig gan eu bod yn sicrhau bod y gwaith yn parhau i leihau'r risg o niwed a berir i eraill. Ym mhob un o'r achosion perthnasol, roedd cynlluniau i ymdrin â'r risg o niwed i eraill wedi cael eu hadolygu'n foddhaol.
- 2.3. Clywsom gan staff fod rheolwyr yn arolygu gwaith risg o niwed fel mater o drefn mewn achosion perthnasol, a gwelsom sut roedd hyn yn cyfrannu'n bositif at y gwaith yn y rhan fwyaf o achosion.

3. Diogelu'r plentyn neu'r person ifanc

- 3.1. Mewn 10 o'r 12 o achosion, roedd anghenion diogelu a bregusrwydd wedi cael eu hasesu'n ddigonol yn ystod y cam cychwynnol ac roedd hyn wedi cael ei adolygu'n foddhaol ym

² Mae'r enwau yn yr adroddiad hwn wedi cael eu newid i ddiogelu hunaniaeth y plentyn neu'r person ifanc

mhob un ond un o'r naw achos perthnasol. Roedd staff a aseswyd yn asesu'r materion diogelu neu bregusrwydd posibl sy'n deillio o broblemau iechyd corfforol, emosiynol neu feddyliol, camddefnyddio sylweddau (alcohol a chyffuriau), materion cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg neu drefniadau gofal fel mater o drefn .

- 3.2. Nododd arolygydd mewn un achos: *"Roedd llawer o swyddogion proffesiynol yn ymwneud â Byron. Yr oedd yn Blentyn oedd yn Derbyn Gofal (LAC) ac roedd wedi ei leoli'r tu allan i'r sir yn ifanc. Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, ymddangosodd Byron yn y llys y tu allan i'r sir ac, yn dilyn hyn, cymerodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid Ceredigion yr arweiniad yn yr achos. Roedd ymddygiad Byron mor wael fel na fyddai unrhyw gartref gofal yn ei dderbyn ac fe'i rhoddwyd mewn uned ddiogel. Ymwelodd rheolwr achos y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid a'r gweithiwr iechyd meddwl â Byron yn wythnosol, i hyrwyddo ymddygiad da a'i helpu i fyfyrio ynghylch achosion o ymddygiad ymosodol a thrais. Cafodd materion risg a bregusrwydd eu rheoli o dan ofal Cyfarfod Rheoli Risg y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid (RMM), a gafodd ei gadeirio gan reolwr gweithredol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid. Cafodd cynllun rheoli risg cynhwysfawr ei ddyfeisio yn y cyfarfod hwn ac roedd hyn yn cwmpasu risg o niwed a gwendidau. Mynychodd y rheolwr achos adolygiadau'r plant sy'n derbyn gofal a mynychodd y gweithiwr cymdeithasol RMM y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid. Roedd y gwaith o gydlynu'r gwaith amlasiantaethol yn gadarn."*
- 3.3. Roedd cynllunio'r gwaith i reoli a lleihau bregusrwydd o ansawdd da mewn dim ond 7 o'r 11 o achosion perthnasol. Yn y rhai nad oeddent, peidio â chynhyrchu cynllun (tri achos) neu nad oedd yr ymateb a gynlluniwyd yn ddigon clir (un achos) oedd y materion oedd yn tarseilio ansawdd y gwaith. Canfuom y gallai'r termau a ddefnyddid yn y tîm ynghylch y cysyniad o 'risg' fod wedi bod yn fwy manwl a gallai hyn helpu i sicrhau bod pob agwedd o risg yn cael sylw penodol wrth gynllunio achosion. Er enghraifft, efallai y gallai cynlluniau elwa o sicrhau bod gwahaniaethu clir o ran risg sy'n gysylltiedig â'r canlynol: achosi niwed; aildroseddu; materion diogelu a bod yn agored i niwed, neu ryw gyfuniad o'r tri.
- 3.4. Mewn wyth allan o'r deg achos perthnasol, canfuom adolygiadau digonol, trwy gydol y ddedfryd, o gynlluniau i ymdrin ag anghenion diogelu a bregusrwydd.
- 3.5. Mewn 11 o'r 12 o achosion, roedd digon o sylw wedi'i roi i ymdrin ag anghenion iechyd a lles y plentyn neu'r person ifanc.
- 3.6. Roedd tystiolaeth fod rheolwyr yn goruchwylio gwaith i ymdrin â diogelu a bregusrwydd yn effeithiol ym mron pob un o'r achosion.

4. Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni

- 4.1. Roedd y rhan fwyaf o asesiadau o ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i gydweithredu yn ddigonol, a rhoddwyd sylw priodol i'r materion hyn mewn PSRs ac adroddiadau'r panel gorchmynion cyfeirio. Un enghraifft o hyn yn ymarferol oedd bod rheolwyr achos yn cynnig asesiad arddulliau dysgu i blant a phobl ifanc fel mater o drefn. Canfuom fod rheolwyr achos yn defnyddio canlyniadau'r asesiad hwn i lywio'r ffordd yr oeddent yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Roedd hyn yn dangos pwysigrwydd ymdrin â materion amrywiaeth a sut y gallai helpu i ffurfio perthynas weithio effeithiol rhwng y plant a'r bobl ifanc a'u rheolwyr achos.
- 4.2. Roedd y plant a'r bobl ifanc, neu eu rhieni /gofalwyr, yn cymryd rhan wrth baratoi pob un o'r PSRs ac adroddiadau'r panel gorchmynion cyfeirio. Canfuom hefyd y bu cydweithredu da i gynnal asesiadau a chynlluniau pellach. Rhoddwyd sylw, yn y rhan fwyaf o gynlluniau, i ffactorau amrywiaeth ac i rwystrau posibl i gydweithredu. Roedd hyn yn ategu gallu rheolwyr achos i weithio tuag at gyflawni newid cadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc.

- 4.3. Roedd lefelau cysylltiad â phlant a phobl ifanc oedd yn destun goruchwyliaeth yn cadw cydbwysedd da rhwng hyrwyddo cydymffurfiaeth, darparu ymyriadau i helpu i gyflawni newid cadarnhaol ar gyfer yr unigolyn a'u dal i gyfrif. Roedd wyth o'r plant a'r bobl ifanc cwrdd yn bodloni gofynion eu dedfryd yn llawn. Ym mhob achos lle nad oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi cydweithio yn ôl yr angen, roedd ymateb y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid yn briodol. Gwelodd pedwar achos yr angen am waith gan y rheolwr achos i sicrhau cydymffurfiaeth ac arweiniodd hyn at y plant a'r bobl ifanc naill ai'n ail-ymwneud â'r gwaith (tri achos) neu, mewn un achos, yr achos yn cael ei ddychwelyd i'r llys ar gyfer achos tor-amod. Nododd un arolygydd: *"Ym mwyafrif yr achosion rwyf wedi eu hadolygu, nid yw'r plant a'r bobl ifanc wedi aildroseddu ac maent wedi gwneud cynnydd da ar faterion sy'n gysylltiedig â'u troseddu. Roedd gallu staff i ffurfio perthynas waith gynhyrchiol gyda'r plant a'r bobl ifanc, a gyda'u rhieni /gofalwyr, yn amlwg. Roedd hyn, ynghyd â dealltwriaeth dda o'r materion sy'n wynebu plant a phobl ifanc sy'n byw mewn cymunedau bach, yn ymddangos i fod yn ganolog i'w helpu i elwa ar eu gwaith gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid."*

Rheolaeth weithredol

Gwelsom fod y GCI wedi ymateb i'r arolygiad blaenorol yn 2010 drwy weithredu amrywiaeth o fesurau sy'n anelu at wella ansawdd eu gwaith. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu proses sicrhau ansawdd i helpu i wella nifer o feysydd ymarfer. Yn 2012 sefydlodd y GCI gyfarfod rheoli risg, a oedd yn dwyn ynghyd amrywiaeth o weithwyr proffesiynol i gydlynu eu gweithredoedd mewn achosion cymhleth. Gwelsom y ddau beth hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol yn y gwaith a adolygwyd gennym. Roedd ymarferwyr yn croesawu'r rhain a datblygiadau eraill o ran ymarfer ac roeddent wedi eu hymgorffori i'w gwaith. Yn y cyfnod yn arwain at yr arolygiad, roedd y GCI wedi cychwyn ar broses o newid mawr i ganolbwyntio ar waith ataliol gyda phlant a phobl ifanc, gan leihau'r angen i weithio gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi'u dedfrydu gan y llysoedd. Roedd y GCI wedi gwneud cynnydd sylweddol yn hyn o beth ac yn ymdrin â'r materion o ran ymarfer a oedd yn mynd gyda'r newid ffocws hwn.

Roedd rheolwyr achos yn gwerthfawrogi goruchwyliaeth o'u hymarfer gan reolwyr. Fe wnaethant ddisgrifio cydlofnodi a rheoli goruchwyllo gwaith fel proses effeithiol. Roeddem yn barnu bod goruchwyliaeth staff a threfniadau sicrhau ansawdd wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at ansawdd y gwaith a wnaed. Yn gyffredinol, dywedodd y staff eu bod yn derbyn goruchwyliaeth effeithiol a'u bod yn cael eu cefnogi yn eu hymdrechion i wella ansawdd eu gwaith.

Adroddodd y rhan fwyaf o'r staff eu bod wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar i'w galluogi i wneud eu swydd bresennol, ond nid oedd pob un yn teimlo eu bod wedi cael digon o hyfforddiant o ran cyflawni ymyriadau neu ymdrin â materion amrywiaeth. Canfuom fod ymarferwyr yn deall sut roedd eu gwaith yn cyfrannu at flaenoriaethau'r sefydliad. Roeddent yn dangos ymwybyddiaeth o egwyddorion ymarfer effeithiol a pholisïau a gweithdrefnau lleol i ymdrin â materion cydymffurfio, bregusrwydd a materion risg o niwed.

Cryfderau allweddol

- Roedd rheolwyr achos yn amlwg wedi cyfrannu at y cynnydd cadarnhaol yr oedd llawer o'r plant a'r bobl ifanc wedi ei wneud mewn perthynas â ffactorau sy'n gysylltiedig â'r risg o aildroseddu.
- Ansawdd yr adroddiadau a gynhyrchwyd ar gyfer llysoedd a phaneli gorchmynion cyfeirio.
- Cydweithrediad plant a phobl ifanc a rhieni /gofalwyr mewn asesiadau a chynlluniau.
- Ymdrin mewn modd cadarnhaol â materion cydymffurfio a diffyg cydweithredu.

Meysydd y mae angen eu gwella

- Sicrhau bod gan yr holl achosion perthnasol gynllun clir i ymdrin â materion diogelu a bregusrwydd.

Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth a gawsom gan staff yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i hwyluso ac ymgysylltu â'r arolygiad hwn. A fyddech cystal â throsglwyddo ein diolch, a sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o ganfyddiadau'r arolygiad hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am yr arolygiad, cysylltwch â'r arolygydd arweiniol, sef Joseph Simpson. Gellir cysylltu ag ef ar joe.simpson@hmiprobation.gsi.gov.uk neu ar 07917 084764.

Copiau at:	
Rheolwr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid	<i>Liam McPherson</i>
Prif Weithredwr Awdurdod Lleol Cyngor Sir Ceredigion	<i>Bronwen Morgan</i>
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Ceredigion	<i>Elfed Hopkins</i>
Aelod Etholedig Arweiniol dros Wasanaethau Plant Cyngor Sir Ceredigion	<i>Ellen Ap Gwyn</i>
Aelod Etholedig Arweiniol dros Droseddau Cyngor Sir Ceredigion	<i>Ray Quant</i>
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys	<i>Christopher Salmon</i>
Cyfarwyddwr Gofal Cymunedol a Gwasanaethau Tai, Sir Gaerfyrddin	<i>Jake Morgan</i>
Cadeirydd Mainc y Llys Ieuentid	<i>Russell Young</i>
Pennaeth Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid Cymru	<i>Dusty Kennedy</i>
Llywodraeth Cymru	<i>Sarah Cooper</i>
Staff cyswllt y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid	<i>Lisa Harvey-Messina, Shelley Greene, Paula Williams, Linda Paris, Julie Fox, Mark Cox</i>
Swyddfa'r Wasg y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid	<i>Zena Fernandes, Adrian Stretch</i>
Estyn	<i>Alun Connick, Jassa Scott</i>
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	<i>Nigel Brown, Bobbie Jones</i>
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	<i>Robin Bradfield</i>
Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EM	<i>Paul Eveleigh</i>
Swyddfa Archwilio Cymru	<i>Huw Rees</i>

Nodyn 1: Fel arolygiaeth annibynnol, mae Arolygiaeth Prawf EM yn rhoi sicrwydd i Weinidogion a'r cyhoedd am effeithiolrwydd gwaith gyda'r rheiny sydd wedi troseddu neu sy'n debygol o droseddu. Mae'n hyrwyddo gwelliant parhaus gan y sefydliadau yr ydym yn eu harolygu ac yn cyfrannu at effeithiolrwydd y system gyfiawnder troseddol.

Nodyn 2: Rydym yn casglu tystiolaeth yn erbyn meini prawf Sgrinio Ansawdd Byr, sydd ar gael ar wefan Arolygiaeth Prawf EM - <http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation>.

Nodyn 3: I ofyn am gopi papur o'r adroddiad hwn, cysylltwch â Chyfathrebu Arolygiaeth Prawf EM yn communications@hmiprobation.gsi.gov.uk neu ar 0161 240 5336.